**TAG UWCH**

1570N30-1A

**I’W ROI I YMGEISWYR O 1 MAWRTH 2023 YMLAEN**

# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

## Uned 3 – Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch datblygiad plant a phobl ifanc

## ASTUDIAETH ACHOS I’W RHYDDHAU YMLAEN LLAW

### CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

**Ni allwch** fynd â’r deunydd hwn nac unrhyw ddeunydd ymchwil cysylltiedig i mewn i’r arholiad gyda chi.

### GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae’r wybodaeth dros y dudalen wedi’i darparu i’ch helpu chi i baratoi ar gyfer Adran A yn yr arholiad ‘Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch datblygiad plant a phobl ifanc’.

ⓗ WJEC CBAC Cyf. JD*(Y22-1570N30-1A)

**Mae’r cyd-destun ar gyfer Adran A yr arholiad Uned 3 yn Haf 2023 wedi’i amlinellu isod.**

Mae Osian yn 2 oed ac mae’n byw mewn pentref gwledig (*rural village*) gyda’i fam, Amy. Fe wnaeth ei rieni wahanu (*separated*) flwyddyn yn ôl ac nid yw Osian yn cael llawer o gysylltiad â’i dad. Mae’r teulu’n cael budd-daliadau ac mae Amy yn aml yn cael trafferth ymdopi yn ariannol.

Mae Amy wedi penderfynu peidio â mynychu’r grŵp rhieni a phlant bach lleol gan fod Osian wedi bod yn dangos ymddygiad heriol o gwmpas plant eraill. Mae Osian wedi cael cynnig lle yn y feithrinfa leol.

Mae Katya, goruchwyliwr y feithrinfa, fydd hefyd yn weithiwr allweddol i Osian, wedi ymweld â’r teulu yn eu cartref. Mae Amy wedi mynegi ei phryderon (*concerns*) am ymddygiad Osian o gwmpas plant eraill, ac mae hi hefyd wedi dweud am ei hanawsterau ariannol (*financial difficulties*).

Wrth baratoi ar gyfer Adran A yn y papur arholiad Uned 3, rydyn ni’n eich cynghori i ymchwilio i’r canlynol:

- meysydd datblygiad allweddol mewn plant a phobl ifanc: corfforol, gwybyddol, ieithyddol/iaith, deallusol, cymdeithasol ac emosiynol
- pwrpas chwarae
- mathau o chwarae
- y damcaniaethau allweddol sy’n ymwneud â deall a rheoli ymddygiadau penodol
- strategaethau a dulliau (*approaches*) sy’n cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol.